

CYNGOR CYMUNED PENTIR
POLISI GWARCHOD DATA
RHYBUDD PREIFATRWYDD – STAFF AC AELODAU



I berwyl y rhybudd preifatrwydd yma, mae staff yn golygu gweithwyr sydd yn gyflogedig gan y Cyngor, yn cynnwys staff dros dro a sefydlog, yn cynnwys gwirfoddolwyr, contractwyr ac asiantwyr. Mae'n cynnwys cyn staff, cyn Aelodau o'r Cyngor neu unrhyw un sydd yn gysylltiedig ag unrhyw un o'r rolau yma neu wedi ymgeisio am y rolau yma.

Eich Data Personol – beth yw?

Data personol yw unrhyw wybodaeth am unigolyn byw sy'n caniatáu iddynt gael eu hadnabod o'r data hwnnw (er enghraifft, enw, ffotograff, fideo, cyfeiriad e-bost, neu gyfeiriad). Gall adnabod fod yn uniongyrchol ddefnyddio'r data ei hun neu drwy ei gyfuno â gwybodaeth arall sy'n helpu i adnabod unigolyn byw (ee gall rhestr o staff gynnwys rhifau adnabod personél yn hytrach nag enwau, ond os ydych chi'n defnyddio rhestr ar wahân o'r rhifau adnabod sy'n rhoi enwau cyfatebol i nodi'r staff yn y rhestr gyntaf, yna bydd y rhestr gyntaf hefyd yn cael ei drin fel data personol). Mae prosesu data personol yn cael ei reoli gan ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â data personol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys y Rheoliad Gwarchod Data Cyffredinol (y "GDPR") a deddfwriaeth arall sy'n ymwneud â data personol a hawliau fel y Ddeddf Hawliau Dynol.

Pwy ydym ni?

Fe ddarperir yr hysbyseb preifatrwydd yma gan Gyngor Cymuned Pentir sydd yn rheolydd data ar gyfer eich data.

Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda:-

- Rheolwyr data eraill, megis awdurdodau lleol, awdurdodau cyhoeddus, llywodraeth ganolog ac asiantaethau megis HMRC a DVLA
- Darparwyr pensiwn staff
- Cyn-gyflogwyr a darpar gyflogwyr
- Cyflenwyr gwasanaethau DBS
- Darparwyr gwasanaethau cyflogres
- Asiantaethau Recriwtio
- Asiantaethau cyfeirio credyd

Efallai y bydd angen i ni rannu data personol sydd gennym gyda nhw er mwyn iddynt allu cyflawni eu cyfrifoldebau i'r cyngor a'n cymuned. Weithiau bydd y sefydliadau y cyfeirir atynt uchod yn "rheolwyr data ar y cyd". Mae hyn yn golygu ein bod ni i gyd yn gyfrifol i chi am sut rydym yn prosesu eich data, er enghraifft mae dau neu fwy o reolwyr

data yn cydweithio i gyd-bwrpas. Os nad oes cyd-bwrpas na chydweithrediad yna bydd y rheolwyr data yn annibynnol a byddant yn gyfrifol yn unigol i chi.

Bydd y cyngor yn cydymffurfio â chyfraith diogelu data. Mae hyn yn dweud bod rhaid i'r data personol mae'r cyngor yn ei gasglu fod:

- â'i ddefnydd yn gyfreithlon, yn deg ac mewn ffordd dryloyw;
- wedi'i gasglu yn unig at ddibenion dilys yr ydym wedi eu hesbonio'n glir i chi ac nad ydi wedi ddefnyddio mewn unrhyw ffordd sy'n anghydnaws â'r dibenion hynny.
- yn berthnasol i'r dibenion yr ydym wedi dweud wrthyich amdanynt ac yn gyfyngedig i'r dibenion hynny yn unig.
- yn gywir ac ei fod y wybodaeth ddiweddaraf.
- yn cael ei gadw dim ond cyn belled ag y bo angen at y dibenion yr ydym wedi dweud wrthyich amdanynt.
- wedi ei ddiogelu a bydd yn cael ei ddinistrio'n ddiogel ac y bydd y Cyngor yn sicrhau bod mesurau technegol a diogelwch priodol ar waith i amddiffyn eich data personol rhag ei golli, camddefnyddio, mynediad a datgelu heb ganiatâd.

Pa ddata rydyn ni'n ei brosesu?

- Enwau, teitlau, ac aliasau, ffotograffau;
- dyddiad cychwyn / dyddiad gadael;
- manylion cyswllt megis rhifau ffôn, cyfeiriadau a chyfeiriadau e-bost;
- Lle maen nhw'n berthnasol i'n rhwymedigaethau cyfreithiol, neu lle rydych chi'n eu darparu i ni, e.e. gallwn brosesu gwybodaeth fel rhyw, oedran, dyddiad geni, statws priodasol, cenedligrwydd, addysg / hanes gwaith, cymwysterau academaidd / proffesiynol, manylion cyflogaeth, hobiau, cyfansoddiad teuluol, a dibynyddion;
- dynodwyr anariannol megis rhifau pasbort, rhifau trwydded yrru, rhifau cofrestru cerbydau, niferoedd adnabod trethdalwyr, rhifau adnabod staff, codau cyfeirnod treth a rhifau yswiriant gwladol.
- dynodwyr ariannol megis rhifau cyfrif banc, rhifau cerdyn talu, dynodwyr talu / trafodion, rhifau polisi, a rhifau hawlio;
- Gwybodaeth ariannol megis rhif Yswiriant Gwladol, cofnodion cyflog a thâl, cod treth, cyfraniadau treth a budd-daliadau, treuliau a hawlir.
- Data personol gweithredol arall a grëwyd, a gafwyd, neu a broseswyd fel arall wrth gynnal ein gweithgareddau, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ffilm Teledu Cylch Cyfyng, recordiadau o sgysiau ffôn, cyfeiriadau IP a gwefannau ymweliadau gwefan, logiau ymwelwyr, a logiau o ddamweiniau, anafiadau ac yswiriant.
- Perthynas agosaf a gwybodaeth gyswllt argyfwng
- Gwybodaeth recriwtio (gan gynnwys copïau o ddogfennau hawl i waith, cyfeiriadau a gwybodaeth arall a gynhwysir mewn CV neu lythyr gorchuddio neu fel rhan o'r broses ymgeisio a'r ffynhonnell gyfeirio (e.e. asiantaeth, cyfeirio staff)
- Lleoliad cyflogaeth neu weithle.

- Data staff eraill (heb eu cynnwys uchod) gan gynnwys; lefel, gwybodaeth rheoli perfformiad, ieithoedd a hyfedredd; trwyddedau / tystysgrifau, statws mewnffudo; statws cyflogaeth; gwybodaeth am achosion disgyblu a chwyno; a bywgraffiadau personol;
- Ffilm Teledu Cylch Cyfyng a gwybodaeth arall a geir trwy ddulliau electronig megis cofnodion cerdyn sweip;
- Gwybodaeth am eich defnydd o'n systemau gwybodaeth a chyfathrebu:

Defnyddiwn eich data personol ar gyfer rhai neu bob un o'r dibenion canlynol: -

Noder: Mae arnom angen pob categori o ddata personol yn y rhestr uchod yn bennaf er mwyn caniatáu i ni gyflawni ein contract gyda chi a'n galluogi i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol.

- Gwneud penderfyniad am eich recriwtio neu'ch apwyntiad.
- Penderfynu ar ba dermau rydych chi'n gweithio i ni.
- Sicrhau bod gennych hawl cyfreithiol i weithio yn y DU.
- Eich talu chi ac, os ydych chi'n gyflogai, yn tynnu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol.
- Rhoi budd-daliadau cytundebol i chi
- Cysylltu â'ch darparwr pensiwn.
- Gweinyddu'r contract yr ydym wedi ymrwymo iddo gyda chi;
- Rheoli a chynllunio, gan gynnwys cyfrifo ac archwilio;
- Cynnal adolygiadau perfformiad, rheoli perfformiad a phenderfynu ar ofynion perfformiad;
- Gwneud penderfyniadau ynghylch adolygiadau cyflog ac iawndal;
- Asesu cymwysterau ar gyfer swydd neu dasg arbennig, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch hyrwyddiadau.
- Cynnal achosion cwyno neu ddisgyblu.
- Gwneud penderfyniadau am eich cyflogaeth neu ymgysylltiad parhaus.
- Gwneud trefniadau ar gyfer terfynu ein perthynas waith.
- Gofynion addysg, hyfforddiant a datblygu.
- Delio ag anghydfodau cyfreithiol sy'n ymwneud â chi, gan gynnwys damweiniau yn y gwaith.
- Canfod eich ffitrwydd i weithio.
- Rheoli absenoldeb oherwydd salwch.
- Cydymffurfio â rhwymedigaethau iechyd a diogelwch.
- Atal twyll.
- Sicrhau diogelwch rhwydwaith a gwybodaeth, gan gynnwys atal mynediad anawdurdodedig i'n cyfrifiaduron a systemau cyfathrebu electronig ac atal dosbarthiad meddalwedd maleisus.
- Cynnal astudiaethau dadansoddi data i adolygu a deall cyfraddau cadw ac adfer cyflogeion yn well.
- Monitro cyfleoedd cyfartal.
- Ymgymryd â gweithgaredd sy'n gyson â'n swyddogaethau a'n pwerau statudol gan gynnwys unrhyw swyddogaethau dirprwyedig.
- Cynnal ein cyfrifon a'n cofnodion ein hunain.
- Gofyn am eich barn neu sylwadau.
- Prosesu cais am swydd.

- Gweinyddu buddiannau'r cynghorwyr.
- Darparu geirda.

Gall ein prosesu hefyd gynnwys defnyddio systemau teledu cylch cyfyng at ddibenion monitro. Bydd rhai o'r rhesymau uchod dros brosesu yn gorgyffwrdd, ac mae'n bosibl y bydd nifer o resymau sy'n cyfiawnhau defnyddio eich data personol.

Ni fyddwn yn defnyddio eich data personol oni bai fod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Fel arfer, byddwn yn defnyddio eich data personol yn yr amgylchiadau a ganlyn:

- Lle mae angen i ni gyflawni'r contract rydym wedi ymrwymo iddo gyda chi.
- Lle mae angen i ni gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.

Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn defnyddio eich data personol yn y sefyllfaoedd a ganlyn, sy'n debygol o fod yn anghyffredin:

Lle mae angen i ni warchod eich buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall).
Lle mae angen hynny er budd y cyhoedd [neu at ddibenion swyddogol].

Sut rydym yn defnyddio data personol sensitif

- Gallwn brosesu data personol sensitif yn ymwneud â staff, cynghorwyr a deiliaid rolau gan gynnwys, fel sy'n briodol:
 - gwybodaeth am eich iechyd neu gyflwr corfforol neu feddyliol er mwyn monitro absenoldeb oherwydd salwch a gwneud penderfyniadau ynglŷn â'ch addasrwydd i weithio;
 - gwybodaeth am eich hil neu darddiad ethnig, neu eich crefydd, neu wybodaeth debyg, er mwyn monitro cydymffurfiad â deddfwriaeth cyfle cyfartal;
 - er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rhwymedigaethau i drydydd partion.
- Disgrifir y mathau hyn o ddata yn y GDPR fel "Categoriâu arbennig o ddata" ac mae angen lefelau diogelu uchel ar eu cyfer. Mae angen i ni gael cyfiawnhad pellach dros gasglu, storio a defnyddio'r math yma o ddata personol.
- Gallwn brosesu categorïau arbennig o ddata personol yn yr amgylchiadau a ganlyn:
 - Mewn amgylchiadau cyfyngedig, â chaniatâd ysgrifenedig penodol gennych chi.
 - Lle mae angen i ni gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol.
 - Lle mae angen hynny er budd y cyhoedd, er enghraifft er mwyn monitro cyfle cyfartal neu mewn cysylltiad â'n cynllun pensiwn.

- Lle mae angen gwneud hynny er mwyn asesu eich gallu i weithio am resymau yn ymwneud ag iechyd, yn amodol ar fesurau priodol i ddiogelu cyfrinachedd.
- Yn llai cyffredin, mae'n bosibl y byddwn yn prosesu'r math yma o ddata personol lle mae ei angen mewn cysylltiad â hawliadau cyfreithiol neu lle mae ei angen er mwyn gwarchod eich buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall) ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, neu lle rydych eisoes wedi gwneud y wybodaeth yn gyhoeddus.

A oes arnom angen eich caniatâd i brosesu eich data personol sensitif?

- Nid oes arnom angen eich caniatâd os ydym yn defnyddio eich data personol sensitif yn unol â'n hawliau a'n rhwymedigaethau ym maes cyflogaeth a chyfraith nawdd cymdeithasol.
- Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi i ofyn am eich caniatâd ysgrifenedig i ganiatáu i ni brosesu rhai mathau o ddata personol sensitif. Os byddwn yn gwneud hynny, byddwn yn rhoi manylion llawn y data personol y byddem yn hoffi eu cael, a'r rheswm pam y mae arnom eu hangen, er mwyn i chi allu ystyried yn ofalus a oes arnoch eisiau rhoi caniatâd.
- Dylech fod yn ymwybodol nad yw cytuno i gydymffurfio ag unrhyw gais am ganiatâd gennym ni yn un o amodau eich contract

Gwybodaeth am euogfarnau troseddol

- Ni allwn ddefnyddio data personol sy'n gysylltiedig ag euogfarnau troseddol oni bai fod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Bydd hyn fel arfer lle mae prosesu o'r fath yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau a chyn belled ein bod yn gwneud hynny yn unol â'n polisi diogelu data.
- Yn llai cyffredin, gallwn ddefnyddio data personol sy'n gysylltiedig ag euogfarnau troseddol lle mae angen hynny mewn cysylltiad â hawliau cyfreithiol, lle mae angen hynny er mwyn gwarchod eich buddiannau (neu fuddiannau rhywun arall) ac nad ydych yn gallu rhoi eich caniatâd, neu lle rydych eisoes wedi gwneud y wybodaeth yn gyhoeddus.
- Lle bo'n briodol, byddwn yn casglu data personol am euogfarnau troseddol fel rhan o'r broses recriwtio, neu mae'n bosibl y byddwn yn cael ein hysbysu am ddata personol o'r fath yn uniongyrchol gennych chi tra byddwch yn gweithio i ni.

Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol?

Mae rhywfaint o'n gwaith prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn prosesu data os oes eu hangen er mwyn cyflawni contract gyda chi, neu i gymryd camau i wneud contract. Byddwn hefyd yn prosesu eich data er mwyn eich cynorthwyo i gyflawni eich rôl yn y cyngor, gan gynnwys cefnogaeth weinyddol neu os oes angen prosesu er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.

Rhannu eich data personol

Ni fyddwn yn rhannu eich data personol â thrydydd partïon, gan gynnwys rheolwyr data eraill, oni bai fod hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasgau'r rheolwyr data neu lle rydych yn rhoi caniatâd ymlaen llaw i ni. Mae'n debygol y bydd angen i ni rannu eich data â'r canlynol:

- Ein hasiantau, cyflenwyr a chontractwyr. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i ddarparwr masnachol reoli ein swyddogaethau adnoddau dynol/cyflogres, neu gynnal ein meddalwedd cronfa ddata;
- Pobl neu sefydliadau eraill sy'n gweithredu yn y gymuned leol.
- Rheolwyr data eraill, er enghraifft awdurdodau lleol, awdurdodau cyhoeddus, llywodraeth ganolog ac asiantaethau megis HMRC a DVLA
- Darparwyr pensiwn staff
- Cyn-gyflogwyr a darpar gyflogwyr
- Cyflenwyr gwasanaethau DBS
- Darparwyr gwasanaethau cyflogres
- Asiantaethau recriwtio
- Asiantaethau gwirio credyd
- Cynghorwyr proffesiynol
- Undebau llafur neu gynrychiolwyr gweithwyr

Am faint fyddwn ni'n cadw eich data personol?

Byddwn yn cadw rhai cofnodion yn barhaol os yw'r gyfraith yn nodi bod hynny'n ofynnol. Mae'n bosibl y byddwn yn cadw rhai cofnodion eraill am gyfnod estynedig. Er enghraifft, yr arferion gorau ar hyn o bryd yw cadw cofnodion ariannol am o leiaf 8 mlynedd er mwyn cefnogi archwiliadau HMRC neu ddarparu gwybodaeth yn gysylltiedig â threth. Mae'n bosibl y bydd gennym rwymedigaethau cyfreithiol i gadw rhai data mewn cysylltiad â'n rhwymedigaethau statudol fel awdurdod cyhoeddus. Caniateir i'r cyngor gadw data er mwyn amddiffyn neu ddwyn hawliadau. Mewn rhai achosion mae'r gyfraith yn pennu terfyn amser ar gyfer hawliadau o'r fath (er enghraifft 3 blynedd ar gyfer hawliadau anaf personol neu 6 blynedd ar gyfer hawliadau contract). Byddwn yn cadw rhywfaint o ddata personol at y diben hwn cyn belled ein bod yn credu bod angen gwneud hynny er mwyn gallu amddiffyn neu ddwyn hawliad. Yn gyffredinol, byddwn yn ceisio cadw data am ddim mwy o amser nag y mae arnom eu hangen. Mae hyn yn golygu y byddwn yn dileu data pan nad oes eu hangen mwyach.

Eich cyfrifoldebau

Mae'n bwysig bod y data personol rydym yn eu cadw amdanoch yn gywir ac yn gyfredol. Rhowch wybod i ni os bydd eich data personol yn newid yn ystod eich perthynas waith gyda ni.

Eich hawliau mewn cysylltiad â data personol

Mae gennych yr hawliau a ganlyn mewn cysylltiad â'ch data personol:

Wrth ymarfer unrhyw rai o'r hawliau a restrir isod, er mwyn prosesu eich cais, mae'n bosibl y bydd angen i ni wirio eich manylion adnabod i sicrhau eich diogelwch. Mewn achosion o'r fath bydd angen i chi ymateb â phrawf o bwy ydych chi cyn y gallwch ymarfer yr hawliau hyn.

1. Yr hawl i gael mynediad at ddata personol rydym yn eu cadw amdanoch
 - Gallwch gysylltu â ni unrhyw bryd i ofyn am y data personol rydym yn eu cadw amdanoch yn ogystal â pham y mae'r data personol hynny gennym, pwy sy'n gallu cael mynediad at y data personol ac o ble y cawsom y data personol. Pan fyddwn wedi derbyn eich cais byddwn yn ymateb cyn pen mis.
 - Nid oes ffioedd na thaliadau am y cais cyntaf ond mae'n bosibl y codir ffi weinyddol am geisiadau ychwanegol am yr un data personol neu geisiadau sy'n amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol.
2. Yr hawl i gywiro a diweddarau'r data personol rydym yn eu cadw amdanoch
 - Os yw'r data rydym yn eu cadw amdanoch wedi dyddio, yn anghyflawn neu'n anghywir, gallwch roi gwybod i ni a chaiff eich data eu diweddarau.
3. Yr hawl i gael eich data personol wedi'u dileu
 - Os ydych yn teimlo na ddylem fod yn defnyddio eich data personol mwyach neu ein bod yn defnyddio eich data personol yn anghyfreithlon, gallwch ofyn i ni ddileu'r data personol rydym yn eu cadw.
 - Pan fyddwn yn derbyn eich cais byddwn yn cadarnhau a yw'r data personol wedi cael eu dileu neu'n egluro pam na ellir eu dileu (er enghraifft oherwydd bod arnom eu hangen er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol).
4. Yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data personol neu i gyfyngu hynny i ddibenion penodol yn unig
 - Mae gennych hawl i wneud cais yn gofyn i ni stopio prosesu eich data personol neu i ofyn i ni gyfyngu'r prosesu. Ar ôl i ni dderbyn y cais byddwn yn cysylltu â chi ac yn rhoi gwybod i chi os ydym yn gallu cydymffurfio neu os oes gennym rwymedigaeth gyfreithiol i ddal i brosesu eich data.
5. Yr hawl i gludadwyedd data
 - Mae gennych hawl i wneud cais yn gofyn i ni drosglwyddo rhai o'ch data i reolwr arall. Byddwn yn cydymffurfio â'ch cais, os yw'n ymarferol i ni wneud hynny, cyn pen mis ar ôl derbyn eich cais.
6. Yr hawl i dynnu eich caniatâd i'r prosesu yn ôl unrhyw bryd ar gyfer unrhyw brosesu data y cafwyd caniatâd i'w wneud gennych
 - Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl yn hawdd dros y ffôn, drwy ebost, neu drwy'r post (gweler Manylion Cysylltu isod).
7. Yr hawl i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
 - Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 0303 123 1113 neu drwy ebost <https://ico.org.uk/global/contact-us/email/> neu drwy anfon llythyr i

Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow,
Cheshire SK9 5AF.

Trosglwyddo Data Dramor

Bydd data personol a drosglwyddir i wledydd, neu diriogaethau tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, yn cael ei roi ar systemau sy'n cydymffurfio â hawliau personol. Bydd hyn yn gyfwerth naill ai trwy gytundebau rhyngwladol neu gontractau a gymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd. [Mae ein gwefan hefyd yn hygyrch o dramor, ac ar adegau mae'n bosibl y bydd rhywfaint o wybodaeth bersonol (er enghraifft cylchgrawn ble gellir ei lawr lwytho o dramor)

Prosesu Pellach

Os ydym am ddefnyddio'ch data personol at ddiben newydd, sydd heb ei gynnwys yn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn, byddwn yn rhoi rhybudd newydd i chi. Byddwn yn egluro'r defnydd newydd hwn cyn dechrau'r broses a nodi'r dibenion perthnasol a'r amodau prosesu. Lle bynnag y bo angen, byddwn yn ceisio'ch caniatâd ymlaen llaw i'r prosesu newydd.

Newidiadau i'r polisi/hysbysiad hwn

Byddwn yn cadw'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn dan adolygiad rheolaidd a byddwn yn rhoi unrhyw ddiweddariadau ar wefan y Cyngor www.cyngorpentir.cymru

Manylion cyswllt

Mae croeso i chwi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn neu'r data personol sydd gennym amdanoch chi neu i ymarfer yr holl hawliau, ymholiadau neu gwynion perthnasol yn:

Y Rheolwr Data – Cyngor Cymuned Pentir

Fferm Tan y Weirglodd
Waun Pentir
Rhiwlas
Bangor LL57 4EH
☎ 01248 354264
📞 07936545645
clerc@cyngorpentir.cymru